



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

Systemau Monitro Cychod ar gyfer cychod pysgota yng Nghymru

Ymgynghoriad ar gyflwyno Systemau Monitro Cychod ar gyfer cychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru, ynghyd ag unrhyw gwch pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd ble bynnag y maen nhw'n gweithredu.

Gorffennaf 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Tabl Cynnwys

Trosolwg	3
Crynodeb o'r Ymatebion	4
Ymateb Llywodraeth Cymru.....	7
Y camau nesaf.....	9
Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.....	9
Atodiad 1 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	10

Trosolwg

1.1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad ar y cynnig i gyflwyno Systemau Monitro Cychod (VMS) ar gyfer cychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru, ynghyd ag unrhyw gwch pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd ble bynnag y maen nhw'n gweithredu.

Agorodd yr ymgynghoriad ar 29 Ionawr 2019 a daeth i ben ar 3 Mai 2019. Nod y ddogfen hon yw crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law a dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt. Nid yw'n cynnig barn fanwl ar sylwadau unigol.

1.2 Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud VMS yn ofyniad deddfwriaethol ar gyfer pob cwch pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru a phob cwch pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd ble bynnag y maen nhw'n gweithredu (gan gynnwys y tu allan i ddyfroedd Cymru) drwy offeryn statudol.

Y canlyniadau a ddymunir o gyflwyno VMS yw:

- Gwella'r broses o gasglu data a chreu pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol drwy orfodaeth fwy effeithiol a dulliau rheoli gwybodus;
- Gwella'r ddealltwriaeth o'r gweithgareddau pysgota masnachol sy'n digwydd yn nyfroedd Cymru;
- Darparu tystiolaeth ar gyfer cynllunio morol;
- Gwella deallusrwydd, cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng staff gweithredol Gweinyddiaethau Pysgodfeydd Cymru a'r DU;
- Gadael i bysgotwyr ddangos tystiolaeth o'u gweithgarwch pysgota, tystiolaeth a all gael ei defnyddio i ymateb i ddatblygiadau arfaethedig yn yr amgylchedd morol a allai gael effaith ar eu busnes;
- Helpu gydag adferiad a thaliadau yswiriant cynt mewn achosion o golled neu ddifrod i'r cwch ar y môr, a
- Darparu nodweddion diogelwch ychwanegol i ddarparu diogelwch ar gyfer pysgotwyr unigol.

Mae'r VMS yn cofnodi lleoliad, cyflymder a chyfeiriad cwch yn gywir gan ddefnyddio system ddiogel nad oes modd ymyrryd â hi.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw canfod unrhyw effeithiau busnes posibl o gyflwyno VMS i gychod dan 12m.

Roedd gweithdai'r diwydiant - a gynhaliwyd cyn i'r ymgynghoriad agor - yn cyfeirio at ddatblygu a chyflwyno systemau VMS a systemau cofnodi dalfeydd; fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad hwn ar gyfer VMS yn unig. Trafodwyd y cynnig i gyflwyno systemau cofnodi dalfeydd mewn ymgynghoriad arall dan arweiniad y Sefydliad Rheoli Morol (MMO), ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Cafodd unrhyw sylwadau gan ymatebwyr yn ymwneud â chofnodi dalfeydd eu trosglwyddo i'r MMO i'w cynnwys yn eu dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.3 Pwrpas yr ymgynghoriad

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd nodi'r newidiadau arfaethedig a rhoi cyfle i bobl helpu i lywio sut y gellid rhoi'r polisi VMS ar waith. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i helpu i oleuo penderfyniadau gwneuthurwyr polisi yng nghyswllt y cynnig.

Drwy fynd ati o ddifrif i ofyn am sylwadau a gwybodaeth gan arbenigwyr y diwydiant ac aelodau o'r cyhoedd yn ehangach, y nod yw rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith mewn modd sensitif ac effeithlon.

1.4 Pwy a effeithir?

Bydd hyn yn effeithio ar bob un o gychod pysgota Prydain o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru, a phob cwch pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd ble bynnag y maen nhw'n gweithredu.

1.5 Nifer a chategorïau'r ymatebion

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfraniadau i'r ymgynghoriad gan 20 o ymatebwyr i gyd, ond ni wnaeth 3 o'r ymatebwyr ateb unrhyw gwestiynau. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion fel a ganlyn:

- 12 cadarnhaol (60%)
- 4 negyddol (20%)
- 1 ddim yn siŵr (5%)
- 3 dim ymateb (15%)

Cyflwynwyd yr ymatebion hyn drwy arolwg ar-lein, e-bost a llythyr ac ystyriwyd pob un. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i roi adborth.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn hoffi darparu eu cyfeiriad e-bost at ddibenion cydnabod. Gallai'r rhai a gyfrannodd ddewis cadw eu manylion a'u sylwadau'n gyfrinachol.

Crynodeb o'r Ymatebion

2.1 Trosolwg o'r ymatebion

Cafwyd ymatebion cymysg o ran effeithiau cyflwyno VMS ar gychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru, a phob cwch pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd ble bynnag y maen nhw'n gweithredu.

Mae'r rhestr ganlynol yn crynhoi prif effeithiau cadarnhaol VMS a nodwyd gan yr ymatebwyr:

- Byddai VMS yn darparu data gwell i helpu i lywio polisiâu a phenderfyniadau.
- Byddai'r system yn gwella'r gwaith o fonitro a gorfodi pysgodfeydd ac ardaloedd gwarchodedig gan arwain at ddulliau rheoli cynaliadwy.
- Byddai VMS yn atal pobl rhag torri cyfyngiadau gwirfoddol a chyfreithiol o ran ble a sut i bysgota.

Mae'r rhestr ganlynol yn crynhoi prif effeithiau negyddol VMS a godwyd gan yr ymatebwyr:

- Pryderon ynghylch preifatrwydd a diogelu data, gan gynnwys mynediad at ddata a'r defnydd ohono.
- Pryderon ynghylch ymarferoldeb gosod VMS ar gychod bach a chychod heb gyflenwad pŵer trydanol.
- Pryderon ynghylch cost gychwynnol a pharhaus VMS i ddefnyddwyr.
- Pryderon ynghylch colli amser pysgota o ganlyniad i faterion technegol gyda'r VMS.
- Pryderon nad oedd angen VMS a bod y system bresennol yn ddigonol.

2.2. Ymatebion i Gwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig bod angen VMS ar gychod llai na 12 metr? Rhowch sylwadau i gefnogi eich barn.

Mynegodd nifer o'r ymatebwyr safbwyntiau amrywiol o blaid ac yn erbyn y cynnig.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno VMS (60%).

Nododd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd VMS ar gyfer cefnogi cynaliadwyedd.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn ystyried cynllunio morol yn fantais nodedig, gan ddweud y byddai VMS yn darparu tystiolaeth ddigonol o weithgarwch pysgota ar gyfer cynllunio gofodol.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y byddai'n gwella gwaith monitro, gorfodi a chydymffurfiaeth, gan alluogi rheolwyr pysgodfeydd i wneud penderfyniadau gwybodus am ddiffyg cydymffurfio posibl a blaenoriaethu'r defnydd o asedau a swyddogion gorfodi.

Nodwyd hefyd y gallai VMS sicrhau'r fantais ychwanegol o wella diogelwch i bysgotwyr.

Ar y llaw arall, roedd 25% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu, neu'n amheus, o'r broses o gyflwyno VMS.

Mynegwyd amheuan gan nifer o ymatebwyr ynghylch diogelu data a gwybodaeth yn cyrraedd dwylo trydydd parti. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch y ffordd y mae pysgotwyr eraill yn adnabod pysgodfeydd o ganlyniad i gyflwyno VMS.

Roedd pryderon ynghylch ymarferoldeb, yn enwedig o ran gosod y system ar gychod llai ac ar gychod heb bŵer trydanol ac yng nghyswllt costau afresymol ac anghymesur ar gyfer cychod llai.

2.3 Ymatebion i Gwestiwn 2 - Pa gamau eraill y gellid eu cymryd i gyrraedd yr un amcanion?

Fe ofynnem a oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau ar gyfer dulliau eraill o weithredu a fyddai'n gallu cyflawni'r un nod â VMS. Cawsom ymatebion cymysg.

Nododd ymatebwyr mai VMS oedd yr unig ddewis ymarferol, cost-effeithiol, a fyddai'n darparu data dibynadwy.

Roedd y rhai oedd ag amheuan yn awgrymu'r dewisiadau canlynol:

- cynnydd yn nifer llongau'r asiantaeth orfodi;
- monitro a chofnodi ffisegol;

- teledu cylch cyfyng ac awyrennau;
- adrodd gwirfoddol; a
- chasglu data presennol gan ddefnyddio petryalau ystadegol ICES.

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr hefyd yn cydnabod bod yna broblemau gyda'r dewisiadau eraill hyn, fel costau anghymesur a dyrannu adnoddau, ynghyd â data anghywir, anghyflawn a gwael o ran ansawdd.

Awgrymodd ymatebydd arall nad oedd y ddogfen ymgynghori yn datgan nod clir ar gyfer cyflwyno VMS.

2.4 Ymatebion i Gwestiwn 3 - Beth yw eich barn am y costau a'r buddion a amlinellir yn y copi drafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Ydych chi'n cytuno â nhw?

Mynegodd yr ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau o blaid, ac yn erbyn, y dadansoddiad cost a budd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y dadansoddiad cost a budd. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod y gost ariannol yn briodol ac yn rhesymol, gan nodi'r manteision y byddai VMS yn eu cynnig o ran rheoli a monitro Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynaliadwyedd hirdymor.

Roedd un ymatebydd yn cydnabod y byddai VMS yn helpu i ddod o hyd i gychod coll ac yn cyflymu taliadau yswiriant.

Cododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r dadansoddiad cost a budd y pryderon canlynol:

- baich ariannol i bysgotwyr, ar y dechrau ac yn barhaus;
- a fyddai materion technegol yn effeithio ar allu pysgotwyr i fynd allan i bysgota;
- y costau anghymesur y gallai perchnogion cychod llai eu hwynebu.

2.5 Ymatebion i Gwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno â'r dadansoddiad o'r costau a'r buddion a amlinellir yn y copi drafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y manteision yn glir ond bod angen adolygu'r costau. Tynnwyd sylw at y baich ariannol unwaith eto, gyda rhai yn cwestiynu a oedd unrhyw fanteision o gwbl.

Wedi dweud hyn, roedd nifer o'r ymatebwyr yn gefnogol, yn dweud bod y manteision yn bellgyrhaeddol ac yn ymestyn ymhell y tu hwnt i werth ariannol, gan ddyfynnu, yn anad dim, cynaliadwyedd a lleihau'r niwed i'r amgylchedd.

2.6 Ymatebion i Gwestiwn 5 - Oes unrhyw gostau neu fuddion sydd heb gael eu nodi yn y copi drafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Pa dystiolaeth sydd gennych chi i gefnogi hyn?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ailadrodd sylwadau o gwestiynau blaenorol.

Heriodd un ymatebwr yr angen i gael lleoliad GPS bob munud o'r dydd ar gyfer pysgota gydag offer sefydlog, yn hytrach na dibynnu ar betryal ICES. Roedd yr ymatebwr hwn yn cydnabod yr angen am adrodd lleoliadol amserol lle'r oedd cyfyngiadau yn eu lle.

2.7 Ymatebion i Gwestiwn 6 - Rydym yn ymwybodol fod cyflwyno'r dechnoleg newydd hon ar gychod yn cynnig cyfle i ddarparu buddion ychwanegol i'r diwydiant y tu allan i sgôp ein cynigion. Byddem yn croesawu eich awgrymiadau ar gyfer unrhyw nodweddion diogelwch neu reoli cychod eraill (e.e. dyn dros yr ochr, larymau dŵr ac ati) y gellid eu hymgorffori ar unrhyw systemau gaiff eu datblygu.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y dylai mesurau diogelwch gael eu hymgorffori mewn unrhyw system a ddatblygir, gan awgrymu dyn dros yr ochr a thracwyr ar gyfer y criw a'r offer.

2.8 Ymatebion i Gwestiwn 7 – Hoffem gael eich barn am effeithiau cyflwyno VMS ar y Gymraeg, yn benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg. Pa effeithiau allai hyn ei gael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg gan ymatebwyr. Yn ogystal â hynny, cwestiynodd yr ymatebwyr berthnasedd y cwestiynau ynghylch effeithiau VMS ar yr iaith Gymraeg.

2.9 Ymatebion i Gwestiwn 8 - Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y system o fonitro cychod Cymreig fel ei bod yn cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg. Sut y gellid ffurfio neu newid y system fel nad yw'n cael unrhyw effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Darllenwch adran 2.8.

2.10 Ymatebion i Gwestiwn 9 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gynnwys unrhyw sylwadau pellach yma. Fe ailadroddodd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn bwyntiau a godwyd ganddynt yn gynharach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pryderon ynghylch preifatrwydd a diogelu data, gan gynnwys mynediad at ddata a'r defnydd ohono

Mae VMS yn system ddata gaeedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod preifatrwydd pysgotwyr yn cael ei ddiogelu a'i bod yn cadw'n gaeth at ddarpariaethau pob deddfwriaeth berthnasol ynghylch diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gan sicrhau bod yr holl ddata personol yn cael ei drin yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Rheoliad. Ar ben hynny, mae angen i unrhyw gyflenwr sy'n prosesu data personol ar ran Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r rheoliadau diogelu data newydd.

Ni fydd modd i bysgotwyr weld lleoliad, cyflymder na chyfeiriad cwch pysgota arall. Bydd modd i reoleiddwyr gorfodi'r DU a Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU weld y data. O bryd i'w gilydd, efallai y rhennir data dienw ag adrannau eraill y Llywodraeth.

Pryderon ynghylch cost gychwynnol a pharhaus system VMS i ddefnyddwyr

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau lliniaru i sicrhau bod y datrysiad VMS yn parhau yn fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol.

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) sy'n gyfrifol am dalu cost gychwynnol yr uned VMS. Ni fydd unrhyw gost i bysgotwyr unigol am y ddyfais gychwynnol na'r broses o'i gosod. Bydd gan y dyfeisiau VMS warant 12 mis o leiaf hefyd. Yn ystod cyfnod y warant, ni fydd unrhyw ffioedd ar gyfer atgyweiriadau nac unrhyw gostau amnewid.

Mae'r gost i'r diwydiant yn gyfyngedig i gostau adrodd, atgyweiriadau a chostau amnewid (ar ôl i'r cyfnod gwarant ddod i ben) a'r dewis o brynu gwarant estynedig. Yn ystod y broses gaffael, gofynnwyd i gyflenwyr ddarparu eu costau data parhaus blynyddol, ac mae'r rhain wedi'u capio.

Pryderon ynghylch ymarferoldeb gosod VMS ar gychod bach a chychod heb gyflenwad pŵer trydanol

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r cynnig hwn yng ngoleuni'r profiad a'r cipolwg a gafwyd yn sgil y prosiect VMS sy'n berthnasol i gychod 12 metr a throsodd. O ganlyniad, mae gofal mawr wedi'i gymryd i ystyried ac i liniaru'r holl risgiau hysbys.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed gyda darpar gyflenwyr i ymchwilio i'r holl ddewisiadau posibl er mwyn gweithredu ateb cadarn ac addas i'r diben ar gyfer cychod o bob math a maint, gan gynnwys a oes ganddynt gyflenwad pŵer ar y cwch ai peidio.

Pryderon ynghylch colli amser pysgota o ganlyniad i faterion technegol gyda'r system VMS

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflenwyr i liniaru'r risgiau hyn ac i sicrhau nad yw cyflwyno VMS yn effeithio ar amser pysgota. Gofynnwyd i ddarpar gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o ddibynadwyedd a chadernid eu cynnyrch. Mae perchnogion cychod yn gyfrifol am sicrhau bod uned VMS sy'n gweithio ar eu cwch bob amser.

Mynegwyd pryderon nad oedd angen VMS ac y byddai'r system bresennol sy'n defnyddio petryalau Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) yn ddigon

Mae'n hanfodol bwysig i reoleiddwyr a llunwyr polisiâu gael gwell dealltwriaeth o weithgarwch pysgota ar gyfer y fflyd gyfan. Ar hyn o bryd, mae'n anodd mesur gweithgarwch pysgota'r fflyd dan 12m oherwydd ychydig iawn o wybodaeth ofodol am ei weithgarwch sy'n cael ei chofnodi. Mae angen deall ble mae fflyd yn gweithredu, yr ôl troed gofodol ac effaith pob pysgotwr. Mae petryalau ICES yn ardaloedd mawr ac felly, mae'r data lleoliadol maent yn ei ddarparu yn llawer rhy eang i alluogi llunwyr polisi a rheoleiddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus.

Ystyrir mai'r dull polisi hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro gweithgarwch pysgota.

Y camau nesaf

Bydd y gofyniad hwn yn cael ei weithredu drwy offeryn statudol. Disgwylir y bydd y dyddiad gweithredu o ddiwedd 2019 ymlaen er mwyn caniatáu cyflwyno datrysiad VMS i bob cwch o dan 12 metr. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu perchnogion cychod yn unol â hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau ateb cost-isel i bysgotwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu'r cynllun ar gyfer y flwyddyn gyntaf, gyda phosibilrwydd o ymestyn hyn ymhellach.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r cydlynnydd VMS yn:

MarineEvidence&Tech@gov.wales

Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Ni nododd unrhyw un o'r ymatebwyr eu sefydliad fel rhan o'u hymateb i'r ymgynghoriad.

Atodiad 1 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ymwneud â chyflwyno deddfwriaeth newydd i'w gwneud hi'n ofniad statudol i gael System Monitro Cychod (VMS) ar yr holl gychod trwyddedig canlynol:

- Cychod pysgota Prydain o dan 12 metr o hyd sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru
- Holl gychod pysgota Cymreig o dan 12 metr ble bynnag y maent yn gweithredu (yn cynnwys y tu allan i ddyfroedd Cymru).

Cydnabyddir bod mwy y gallwn ei wneud i wella'r gwaith o gasglu data a chreu pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol drwy drefniadau gorfodi mwy effeithiol a threfniadau rheoli ar sail gwybodaeth.

Dyma'r effaith y bwriedir i'r ymyriad ei chael:

- Darparu data gwyddonol a gweithredol a fydd yn helpu i lunio penderfyniadau polisi, rheoleiddio a gorfodi yn fwy effeithiol a chymesur yn y dyfodol;
- Gwella dealltwriaeth o'r gweithgareddau pysgota masnachol sy'n digwydd yn nyfroedd Cymru;
- Darparu tystiolaeth ar gyfer cynllunio morol;
- Gwella gwybodaeth, cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng staff gweithredu pysgodfeydd Cymru a'r DU.

Mae systemau monitro cychod yn cofnodi union leoliad, cyflymder a chyfeiriad cychod gan ddefnyddio system gwrth-ymyrraeth ddiogel. Mae'n anfon y wybodaeth hon drwy ddefnyddio technoleg ffôn symudol, gan ddefnyddio'r seilwaith monitro cyfredol sydd ar waith ar gyfer y cychod 12 metr a throsodd.

Opsiw 1 – Gwneud dim

Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i fwyafrif y cychod o dan 12m (ac eithrio cychod sy'n pysgota am gregyn bylchog) gael system fonitro cychod ar eu bwrdd ac felly mae ein dealltwriaeth o weithgareddau cychod pysgota o dan 12 metr sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru a chychod pysgota Cymru (ble bynnag maent yn gweithredu) yn gyfyngedig. Mae rhywfaint o wybodaeth am leoliad dalfa'r sector hwn o'r fflyd yn cael ei chasglu wedyn yn ôl-weithredol drwy nodiadau gwerthu ac adroddiadau dalfeydd misol. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a gesglir fawr o werth ac nid oes ffordd o wirio pa mor gywir ydyw, mae'n gallu bod yn araf yn cyrraedd hefyd sy'n golygu ei bod hi'n anodd defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i reoli pysgodfeydd a'r amgylchedd morol. Mae 97% o fflyd pysgota Cymru o dan 12m ac felly, os nad oes newid o gwbl, bydd rhaid i benderfyniadau rheoli'r dyfodol gael eu gwneud ar sail gwybodaeth gyfyngedig ac anghyflawn.

Gwneud dim yw'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau a manteision ychwanegol i'r opsiwn hwn. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflawni nodau polisi Is-adran y Môr a Physgodfeydd ac felly nid dyma'r opsiwn a ffeifrir.

Opsiw 2 – Cynllun Gwirfoddol

Byddai cyflwyno cynllun gwirfoddol yn debygol o arwain at gynnydd rhannol yn y defnydd o ddyfeisiau VMS a allai ehangu yn sgil cymhellion ariannol sydd ar gael drwy ddarparu cyfarpar drwy gyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Ni fyddai'r cymhelliant ariannol hwnnw'n berthnasol i gychod o weinyddiaethau eraill y DU felly mae'n llai tebygol y byddent yn glynu at unrhyw gynllun gwirfoddol. O ystyried y pwyntiau hyn, canlyniad dilyn yr opsiwn hwn fyddai cynnydd bach mewn dyfeisiau VMS gan arwain at ddarlun anghyflawn o

weithrediadau pysgota yn nyfroedd Cymru. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflawni nodau polisi Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, nid yw'n opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 3 - Cyflwyno drwy amod trwydded

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu cyflwyno amod trwydded a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i gychod pysgota a weinyddir yng Nghymru gael VMS sy'n gweithio. Er mwyn i hyn fod yn weithredol i gychod eraill y DU byddai angen cael cytundeb gyda gweinyddiaethau eraill y DU i gynnwys amod trwydded tebyg. Byddai peidio â chael cytundeb yn gallu effeithio'n andwyol ar gychod pysgota Cymru. Mae'r manylion y byddai'n rhaid eu cynnwys mewn amod trwydded yn gwneud yr opsiwn hwn yn anymarferol hefyd. Er y gallai'r opsiwn hwn gyflawni nodau polisi Is-adran y Môr a Physgodfeydd mewn theori, mae'r rhwystrau a ddisgrifir uchod yn sylweddol a, o ganlyniad, nid dyma'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 4 - Cyflwyno Offeryn Statudol Cymru gyfan

Mae'r opsiwn hwn yn golygu cyflwyno Offeryn Statudol a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i holl gychod pysgota trwyddedig y DU sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru a holl gychod pysgota Cymru o dan 12 metr waeth ble maent yn pysgota, i gario VMS sy'n gweithio. Ar pwynt hwn, credir y byddai'r Offeryn Statudol yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio pwerau sydd ar gael o dan adran 5 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968, fodd bynnag, bydd y pŵer galluogi hwnnw'n cael ei adolygu wrth i'r cynigion ddatblygu.

Mae darpariaethau tebyg yn cael eu gweithredu yn Lloegr a threialon monitro cychod yn cael eu cynnal gan weinyddiaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Ystyrir mai Offeryn Statudol yw'r unig opsiwn a fydd yn cyflawni amcan y polisi'n llawn ac yn fwyaf effeithiol ac felly dyma'r opsiwn a ffefrir.

Cost i fusnesau

Bydd perchnogion/meistri'n gyfrifol am dâl data blynyddol y ddyfais System Monitro Cychod. Tua £100 - £150 ar ôl y 12 mis cyntaf.

Cost i'r Llywodraeth

Cyfanswm y gost fydd tua £1 miliwn dros gyfnod o 3 blynedd sy'n cael ei thalu gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae'r costau hyn yn cynnwys:

- Cyflenwi a gosod tua 400 o ddyfeisiau VMS ym mhob cwch pysgota o dan 12m yng Nghymru
- Costau cynllun data blynyddol a meddalwedd am y 12 mis cyntaf ar gyfer tua 400 o gychod pysgota
- Datblygu meddalwedd yn cynnwys ffurfweddu cronfeydd data, lletya, diogelwch, llywodraethu ac integreiddio gyda Hyb VMS y DU
- Datblygu unwaith y bydd ar waith yn y dyfodol

Manteision i'r diwydiant pysgota

Mae gosod VMS yn cynnig nifer o fanteision i'r diwydiant:

- Galluogi pysgotwyr i ddangos tystiolaeth o weithgarwch pysgota y gellir ei defnyddio i ymateb i ddatblygiadau arfaethedig yn yr amgylchedd morol a allai effeithio ar eu busnes;

- Gallai'r adnodd tracio helpu i adfer a thalu hawliadau yswiriant yn gynt yn achos colli neu niwed i gwch ar y môr;
- Darparu nodweddion diogelwch ychwanegol i ddiogelu pysgotwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain.

Manteision i'r Llywodraeth

Mae yna nifer o fanteision i'r Llywodraeth:

- Darparu data gwyddonol a gweithredol a fydd yn helpu i lywio polisi yn y dyfodol, a rheoli adnoddau morol Cymru'n effeithiol
- Gwella dealltwriaeth o weithgareddau pysgota masnachol sy'n digwydd yn nyfroedd Cymru
- Darparu tystiolaeth ar gyfer cynllunio morol
- Gwella gwybodaeth, cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng staff gweithredol pysgodfeydd Cymru a'r DU

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

Yr opsiwn a ffefrir yw cyflwyno Offeryn Statudol a fydd yn ei gwneud hi'n orfodol i bob cwch pysgota o dan 12 metr o hyd sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru a phob cwch pysgota Cymreig o dan 12 metr ble bynnag y maent yn pysgota gario system monitro cychod sy'n gweithio ar ei bwrdd.

Asesu Cystadleuaeth

Prawf hidlo cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb cadarnhaol neu negyddol
C1: Yn y farchnad(oedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt), a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad(oedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt), a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad(oedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt), a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar gynaliadwyedd rhai cwmnïau yn fwy nag eraill?	Na fyddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliad?	Nac ydyw
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Byddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na fyddai

C8: A yw'r sector yn gweld newidiadau technolegol cyflym?	Ydy
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

Nid oes disgwyl i'r Rheoliadau gael effaith ar gystadleuaeth yng Nghymru na gallu busnesau Cymru i gystadlu.